



CYNLLUNIAU MARCIO TAG

HAF 2019

**CYMRAEG AIL IAITH - UNED 6
1020U60-1**

RHAGARWEINIAD

Defnyddiwyd y cynllun marcio hwn gan CBAC ar gyfer arholiad 2019. Penderfynwyd arno'n derfynol yn dilyn trafodaeth fanwl mewn cynadleddau arholwyr gan yr holl arholwyr oedd yn ymwneud â'r asesiad. Cynhaliwyd y gynhadledd yn fuan ar ôl sefyll y papur fel y gellid cyfeirio at yr amrediad llawn o ymatebion ymgeiswyr, gyda sgriptiau wedi'u llungopïo yn sail i'r drafodaeth. Amcan y gynhadledd oedd sicrhau bod y cynllun marcio wedi'i ddehongli a'i gymhwyso yn yr un modd gan yr holl arholwyr.

Gobeithir y bydd y wybodaeth hon o gymorth i ganolfannau ond cydnabyddir ar yr un pryd y gallai fod gan athrawon safbwyntiau gwahanol ynglŷn â manylion neu ddehongli gan nad ydynt wedi bod yn rhan o'r gynhadledd farcio.

Mae'n flin gan CBAC ond nid oes modd iddo ymgymryd ag unrhyw drafodaeth na gohebiaeth am y cynllun marcio hwn.

CYNLLUNIAU MARCIO TAG

HAF 2019

CYMRAEG AIL IAITH - UNED 6

Adran A – Defnyddio iaith

1. (i) Rydych chi wedi derbyn y llythyr isod gan gwmni teithio lleol yn dweud eich bod wedi ennill gwyliau i **ddau** o amgylch y byd. Ysgrifennwch BLOG yn disgrifio sut rydych chi'n teimlo am ennill y gwyliau. Rhowch fanylion y gwyliau a dywedwch pam rydych chi'n edrych ymlaen. (tua **150** o eiriau) [20]

Wrth ysgrifennu'r BLOG dylech chi:

- ddisgrifio'r wobr a dweud sut enilloch chi (ble brynoch chi eich tocyn, pris y tocyn, sawl tocyn brynoch chi ayb)
- dweud sut rydych chi'n teimlo am ennill y trip
- cynnwys manylion y daith
- dweud pwy fydd y person lwcus sy'n dod gyda chi
- dweud beth rydych chi'n gobeithio'i weld a'i wneud ym mhob gwlad
- esbonio pa wlad rydych chi'n edrych ymlaen i ymweld â hi fwyaf a pham
- disgrifio sut byddwch chi'n paratoi at y daith.

AA3 Marc		
BAND 1 16-20	Bydd ymgeiswyr yn: - ymateb i bob agwedd o'r cwestiwn yn gydlynol ac yn effeithiol gan ddangos gwreiddioldeb - adnabod y blaenoriaethau arwyddocaol wrth ddadansoddi, gwerthuso ac ymateb i'r wybodaeth - trefnu ac addasu'r gwaith mewn modd sy'n dangos ymwybyddiaeth o'r pwrpas a'r gynulleidfa ac yn creu effaith	Bydd ymgeiswyr yn: - defnyddio ystod eang o eirfa heriol ac addas yn hyderus i gyfleu ystyr benodol gywir - defnyddio cywair cwbl addas i'r dasg a'r gynulleidfa - defnyddio amrywiaeth o frawddegau addas ac effeithiol - arddangos gafael sicr iawn ar ramadeg, treigladau a berfau
BAND 2 13-15	Bydd ymgeiswyr yn: - ymateb i'r rhan fwyaf o elfennau'r cwestiwn yn hyderus gan ddangos gwreiddioldeb - adnabod y rhan fwyaf o'r blaenoriaethau a'r manylion arwyddocaol wrth ddadansoddi, gwerthuso ac ymateb i'r wybodaeth - trefnu ac addasu'r gwaith mewn modd sydd yn briodol i'r pwrpas a'r gynulleidfa	Bydd ymgeiswyr yn: - defnyddio ystod eang o eirfa'n gywir - defnyddio cywair priodol i'r dasg a'r gynulleidfa'n gyson - defnyddio amrywiaeth o frawddegau i greu effeithiau arbennig - arddangos gafael sicr ar ramadeg, treigladau a berfau.
BAND 3 10-12	Bydd ymgeiswyr yn: - ymateb i brif elfennau'r cwestiwn yn effeithiol gan ddangos peth gwreiddioldeb - adnabod nifer o'r blaenoriaethau a'r manylion arwyddocaol wrth ddadansoddi, gwerthuso ac ymateb i'r wybodaeth - trefnu ymateb sydd yn briodol i'r pwrpas a'r gynulleidfa	Bydd ymgeiswyr yn: - defnyddio ystod dda o eirfa yn eithaf cywir - arddangos ymwybyddiaeth o gywair priodol i'r dasg a'r gynulleidfa - arddangos gafael gyson ar ramadeg ar y cyfan tra mae'r mwyafrif o'r treigladau a'r berfau'n gywir - defnyddio amrywiaeth o frawddegau i greu effeithiau arbennig
BAND 4 7-9	Bydd ymgeiswyr yn: - ymateb yn syml i rai o elfennau'r cwestiwn - adnabod rhai o'r blaenoriaethau wrth ymateb i'r wybodaeth - gwneud peth ymgais i drefnu ymateb sy'n briodol i'r pwrpas a'r gynulleidfa	Bydd ymgeiswyr yn: - defnyddio peth ystod o eirfa - arddangos peth ymwybyddiaeth o gywair priodol i'r dasg a'r gynulleidfa - arddangos gafael eithaf anghyson ar ramadeg er bod y treigladau a'r berfau'n eithaf cywir - amrywio'r brawddegau rhywfaint
BAND 5 4-6	Bydd ymgeiswyr yn: - ymateb yn fyr i nifer gyfyngedig o elfennau'r cwestiwn - ymateb i'r manylion symlaf yn unig - arddangos peth ymwybyddiaeth o'r pwrpas	Bydd ymgeiswyr yn: - defnyddio ystod gyfyngedig o eirfa a brawddegau - arddangos gafael gyfyngedig ar ramadeg, treigladau a berfau
BAND 6 0-3	Bydd y ymgeiswyr yn: arddangos rhai nodweddion cadarnhaol ar adegau yn unig	

1. (ii) Mae chwaer eich ffrind, sy'n 12 oed, wedi cael dau ddarn o waith cartref gan yr athro Cymraeg. Mae hi wedi gofyn i chi am help. [10]

Tasg 1

Yn **Tasg 1** mae'n rhaid i chi newid y darn o'r **trydydd** person i'r person **cyntaf**.

Cynllun Marcio 1 marc am bob ateb cywir = 6 marc	
Trydydd person	Person cyntaf
Roedd e'n gwybod ei fod e'n	Roeddwn i'n gwybod fy mod i('n)
roedd e wedi	roeddwn i wedi
Gwthiodd	Gwthiais
doedd e ddim yn	doeddwn i ddim yn
gallai	gallwn
ei galon yn curo'n ei frest	fy nghalon yn curo'n fy mrest

Tasg 2

Yn **Tasg 2** mae'n rhaid i chi ysgrifennu ffurf gywir y ferf sy mewn cromfachau.

Cynllun Marcio 1 marc am bob ateb cywir = 4 marc	
Roedd	Roedden
Gofyn	Gofynnais
Gwrthod	Gwrthododd
Cael	Ces/cevais

Adran B – Y Stori Fer

2. (i) Yn y darn isod o'r stori fer 'Beth os?' gan Llio Mai Hughes, mae Ceri'n dechrau poeni am y ffaith fod pethau rhyngddi hi a Marc yn dechrau symud o fod yn sgwrs ddiniwed i fod yn sgwrs ar lefel dipyn mwy personol. Yn eich barn chi, pa un o'r ddau gymeriad sy'n cymryd y risg mwyaf a pham? (Tua **100** o eiriau) [15]

Gallech gyfeirio at:

peryglon cychwyn perthynas dros y we, ansicrwydd y sefyllfa, y risg o gael eu brifo, y peryglon a'r cyffro o gymryd risg, rhamant y sefyllfa, y syniad o fod â 'dim i'w golli', y siom pan maen nhw'n cyfarfod am y tro cyntaf.

Gellir disgwyl y math yma o gynnwys:

CERI	MARC
➤ ei sefyllfa fregus wedi iddi gael ei brifo gan Gareth ➤ y perygl o gael ei brifo eto ➤ y pellter y bydd hi o'i chynefin a'i chydabod ➤ y ffaith nad ydy hi 'prin yn adnabod Marc' ac erioed wedi cwrdd ag o ➤ y siom a allai ddeillio o hyn ➤ y risg nad ydy popeth mae Marc wedi'i ddweud wrthi hi'n wir ➤ y tueddiad sydd ynddi hi i adael i'w chalon reoli ei phen ➤ y cyffro o gymryd risg yn beryglus ➤ y perygl sydd yn y ffaith ei bod hi'n teimlo bod 'dim byd i'w golli' ➤ y ffaith bod Ceri ei hun yn cyfeirio mwy at y peryglon na'r pwyntiau positif ➤ y ffaith ei bod hi'n cyfaddef ei hun ei bod hi'n rhamantydd ac yn gadael i'w 'dychymyg fynd â hi ar gyfeiliorn'	➤ y risg o wahôdd person hollol ddieithr, un mae o 'prin yn ei hadnabod', i deithio mor bell o'i chynefin ➤ y ffaith y bydd cyfrifoldeb arno i ofalu amdani ➤ y siom os na fydd hi'n plesio pan maen nhw'n cwrdd ➤ y risg nad ydy popeth mae Ceri wedi'i ddweud wrtho yn wir ➤ y ffaith i Ceri gael ei brifo gan Gareth mor ddiweddar ➤ perygl y bydd yr ofn o gael ei brifo eto yn amharu ar y berthynas ➤ y perygl y bydd Ceri'n disgwyl mwy o'r berthynas nag y mae Marc yn fodlon i'w roi ➤ y posibilrwydd y bydd Ceri wedi camddeall y cyfeillgarwch ➤ y ffaith nad yw Marc yn gwybod dim am y berthynas fu rhwng Gareth a Ceri ➤ y perygl y bydd Marc mewn sefyllfa lle fydd o ddim yn gallu cael gwared ohoni os na fydd pethau'n 'gweithio allan' rhyngddynt.

2. (ii) Yn y darn isod mae'r awdur yn defnyddio:
ffurf negyddol berfau ac ymadroddion negyddol
cwestiynau rhethregol
brawddegau hir

Rhowch enghreifftiau o'r technegau hyn gan ddweud ym mha ffordd maen nhw'n ychwanegu at lwyddiant yr awdur i gyfleu'r **ansicrwydd mae Ceri'n ei deimlo**. (Tua **100** o eiriau) [15]

Y Dechneg	Effaith ar lwyddiant y darn
berfau ac ymadroddion negyddol Enghreifftiau: (i) ... doedd hi ddim isio cael ei brifo eto (ii) Doedd hi prin yn adnabod Marc, ... (iii) ... doedd hi'm yn debygol o'i gyfarfod (iv) ... doedd ganddi mo'r syniad lleiaf (v) ... doedd hi ganddi ddim byd i'w golli	Mae'r negyddol yn cynrychioli'r amheuan a'r ansicrwydd ym meddwl Ceri a'r rhain, yn sicr, yn dreth na'i theimladau positif a rhamantus ac yn gorbwyso â chyffro'r sefyllfa. Mae'r defnydd o ffurf negyddol y ferf yn dangos i ba raddau mae Gareth wedi'i brifo. Yn wir, cawn syniad o ddyfnder y boen a'r effaith arni wedyn oherwydd na fyddai hi'n gallu dioddef poen o'r fath eto. Mae'r defnydd o'r negyddol ynghyd â'r gair 'prin' yn tanlinellu maint y fenter a'r risg o fynd â'r berthynas i lefel mwy personol. Mae'r geiriau 'ddim yn debygol' yn pwysleisio pa mor anobeithiol ac annhebygol mae'r sefyllfa ym meddwl Ceri y rhan fwyaf o'r amser a hyn yn cael ei ddilyn gan y geiriau 'mor bell' a 'byth' sy'n pwysleisio'r ansicrwydd a'r emosiynau negyddol. Mae'r defnydd o radd eithaf yr ansoddair 'lleiaf' ynghyd â'r negyddol sydd wedi'i ailadrodd dro ar ôl tro yn dangos nad oes gan Ceri reolaeth ar y sefyllfa. Yn eironig mae'r awdur yn defnyddio negyddol y ferf mewn ffordd bositif. Yma mae hi'n ceisio dileu'r ansicrwydd.

cwestiynau rhethregol (i) Oedd o newydd ei gwahodd hi i Awstralia a gofyn a oedd hi'n sengl?! (ii) Beth petai hyn yn rhan o ffawd ... a'i bod hi i fod i gwrdd â'r Marc 'ma? (iii) Doedd ganddi ddim byd i'w golli, nag oedd?	Mae 3 chwestiwn rhethregol yn y darn a phob un ohonynt yn creu'r un naws ac yn ateb yr un pwrpas. Mae cwestiynau rhethregol yn gymorth i fynegi mwy nag un safbwynt ac felly'n pwysleisio'r ansicrwydd sy'n effeithio bywyd Ceri wedi iddi gael ei brifo gan Gareth. Mae tri o'r cwestiynau'n rhai caeedig ac mae Ceri eisiau ateb cadarnhaol er mwyn cyfiawnhau'r hyn mae hi'n wneud ac yn lleddfu rhywfaint ar yr ansicrwydd a'r risg. Mae eironi'n y cwestiwn 'Doedd ganddi ddim byd i'w golli, nag oedd?' oherwydd mae hi'n hollol ymwybodol o'r peryglon o dderbyn gwahoddiad Marc a'i heglu hi i Awstralia. Pan mae hi'n cwestiynu ffawd fel rhan bwysig o'r fenter mae hi'n ceisio lleddfu peth o'i hansicrwydd drwy gymryd yr agwedd 'roedd hyn i fod i ddigwydd i mi.' Yn y cwestiwn rhethregol sy'n agor y darn cawn y teimlad nad ydy Ceri'n gallu credu beth sy'n digwydd iddi a'i bod hi angen rhywun i'w helpu i ddod dros yr ansicrwydd a'r anghrediniaeth sy wedi cymryd gafael ar ei bywyd.
brawddegau hir	Mae'r awdur yn defnyddio brawddegau hir trwy gydol y darn. Maen nhw'n gymorth i gyfleu'r ansicrwydd oherwydd eu bod yn creu awyrgylch sy'n pwysleisio'r cymysgedd o emosiynau mae Ceri'n mynd trwyddyn nhw. Mae hyn yn dechneg effeithiol oherwydd bod cyfle i ailadrodd a gwneud defnydd da o atalnodi. Mae brawddegau hir yn awgrymu nad oes diwedd nag ateb hawdd i'r broblem. Mae'r dechneg hefyd yn ei gwneud hi'n haws i ni'r darllenwyr gydymdeimlo â'r sefyllfa mae Ceri ynddi


2. (iii) Un o themâu'r darn isod yw **perthynas pan mae pobl yn cael eu siomi a'u brifo wrth i berthynas ddod i ben**. Manylwch ar hyn trwy gyfeirio at unrhyw lenyddiaeth a ddarllenwyd neu lunyddiaeth a wiliwyd gennych sy'n ymdrin â'r un thema **a'u cysylltu gyda'r darn isod**.
(Cwestiwn synoptig – tua **300** o eiriau) [40]

Oedd o newydd ei gwahodd hi i Awstralia a gofyn a oedd hi'n sengl?!

...

Roedd hi wedi gwastraffu pum mlynedd efo Gareth – pump o flynyddoedd gorau ei hugeiniau, a doedd hi ddim isio cael ei brifo eto. Roedd y rhan synhwyrol ohoni'n dweud wrthi am adael i bethau fod. Doedd hi prin yn adnabod Marc, doedd hi'm yn debygol o'i gyfarfod o, gan ei fod o'n byw mor bell a byth yn dod i Gymru, a doedd ganddi mo'r syniad lleiaf sut roedd o'n edrych! Ond roedd rhyw ran arall ohoni, y rhamantydd ynddi efallai, yn ysu am gael anfon neges yn ôl. Beth petai hyn yn rhan o ffawd, yn fwy na chyd-ddigwyddiad, a'i bod hi i fod i gwrdd â'r Marc 'ma? Pwylodd am eiliad a rhoi ei llaw ar ei thalcen. Roedd hi wastad yn gwneud hyn. Yn gorfeddwl ac yn gadael i'w dychymyg fynd â hi ar gyfeiliorn. Ond wedyn doedd ganddi ddim byd i'w golli, nag oedd?

2. (iii) Un o themâu'r darn isod yw **perthynas pan mae pobl yn cael eu siomi a'u brifo wrth i berthynas ddod i ben**. Manylwch ar hyn trwy gyfeirio at unrhyw lenyddiaeth a ddarllenwyd neu lunyddiaeth a wylwyd gennych sy'n ymdrin â'r un thema **a'u cysylltu gyda'r darn isod**. (Cwestiwn synoptig – tua **300** o eiriau) [40]
- Dyma enghreifftiau posibl:



Adran B - Y Stori Fer

MARC	AA2 (i) (ii) (iii)	MARC	AA3 (i) (ii) (iii)
BAND 1 (i) (ii) 8-10 (iii) 24-30	Bydd y ymgeiswyr yn: • arddangos gwybodaeth eang o'r testun a dealltwriaeth manwl-gywir o'r cysyniadau • llunio ymateb personol i'r testun gan gyflwyno dadleuon gwreiddiol, treiddgar ac arddangos aeddfedrwydd barn • defnyddio dyfyniadau'n gywir ac yn bwrpasol • croesgyfeirio rhwng gwahanol agweddau o'r pwnc yn ôl yr angen	BAND 1 (i) (ii) 5 (iii) 8-10	Bydd y ymgeiswyr yn: • mynegi eu hunain yn aeddfed, yn glir ac yn gywir • saernïo'u gwaith yn fanwl a gofalus • rhoi sylw gofalus i gywair drwy amrywio'r arddull yn sensitif yn ôl yr angen • arddangos amrywiaeth eang iawn o adnoddau iaith a gafael gadarn ar ramadeg a chystrawen
BAND 2 (i) (ii) 7 (iii) 21-23	Bydd y ymgeiswyr yn: • arddangos gwybodaeth fanwl o'r testun a'r cysyniadau • llunio ymateb personol i'r testun yn ddeallus ac yn ddychmygus gan gyflwyno dadleuon gwreiddiol • datblygu ac ehangu syniadau'n drefnus • defnyddio dyfyniadau'n gywir a pherthnasol • croesgyfeirio rhwng gwahanol agweddau o'r pwnc yn ôl yr angen	BAND 2 (i) (ii) 4 (iii) 7	Bydd y ymgeiswyr yn: • mynegi eu hunain yn ddeallus, yn glir ac yn gywir • cynllunio'u gwaith yn fanwl • rhoi sylw gofalus i gywair drwy amrywio'r arddull yn briodol yn ôl yr angen • arddangos amrywiaeth helaeth o adnoddau iaith a gafael dda iawn ar ramadeg a chystrawen
BAND 3 (i) (ii) 6 (iii) 15-20	Bydd y ymgeiswyr yn: • arddangos gwybodaeth helaeth o'r testun a'r cysyniadau • llunio ymateb personol i'r testun gan gyflwyno dadleuon gwreiddiol gan amlaf • datblygu ac ehangu syniadau'n drefnus • defnyddio dyfyniadau perthnasol • croesgyfeirio rhwng rhai agweddau o'r pwnc yn ôl yr angen	BAND 3 (i) (ii) 3 (iii) 5-6	Bydd y ymgeiswyr yn: • mynegi eu hunain yn glir ac yn gywir • saernïo'u gwaith yn ofalus • rhoi sylw gofalus i gywair drwy amrywio'r arddull • arddangos amrywiaeth o adnoddau iaith a gafael dda ar ramadeg a chystrawen

BAND 4 (i) (ii) 5 (iii) 12-14	Bydd y ymgeiswyr yn: • arddangos gwybodaeth briodol o'r testun a'r cysyniadau • llunio ymateb personol i'r testun gan gyflwyno dadleuon digonol • datblygu ac ehangu syniadau'n drefnus ar adegau'n unig • dyfynnu o'r testun yn achlysurol • cyfeirio at rai o wahanol agweddau'r pwnc	BAND 4 (i) (ii) 2 (iii) 4	Bydd y ymgeiswyr yn: • mynegi eu hunain yn eithaf clir a chywir • cynllunio'u gwaith yn eithaf gofalus • arddangos peth ymwybyddiaeth o drefn, dilyniant a chywair wrth gyflwyno'u gwaith • arddangos gafael dda ar adnoddau iaith, gramadeg a chystrawen
BAND 5 (i) (ii) 4 (iii) 7-11	Bydd y ymgeiswyr yn: • arddangos peth gwybodaeth o gynnwys y testun • llunio ymateb personol gan gyflwyno dadleuon yn syml • datblygu syniadau'n weddol drefnus ar adegau • dyfynnu o'r testun yn achlysurol • diffyg cyfeirio at wahanol agweddau'r pwnc	BAND 5 (i) (ii) 1 (iii) 2-3	Bydd y ymgeiswyr yn: • mynegi eu hunain yn glir ac yn gywir ar y cyfan • cynllunio'u gwaith yn ofalus ar adegau'n unig • arddangos peth ymwybyddiaeth o gywair wrth gyflwyno'u gwaith • defnyddio ystod gyfyngedig o eirfa a phatrymau addas a pheth gafael ar ramadeg a chystrawen
BAND 6 (i) (ii) 0-3 (iii) 0-6	Bydd y ymgeiswyr yn: • Bydd yr ymgeiswyr yn arddangos rhai nodweddion cadarnhaol ar adegau yn unig.	BAND 6 (i) (ii) 0 (iii) 1	Bydd y ymgeiswyr yn: • Bydd yr ymgeiswyr yn arddangos rhai nodweddion cadarnhaol ar adegau yn unig